DULL DIOGEL:

# RHEOLI STOC

**Mae rheoli stoc yn effeithiol yn rhan bwysig o reoli diogelwch bwyd.**

| PWYNTIAU DIOGELWCH | PAM? | SUT YDYCH CHI'N GWNEUD HYN? |
|---|---|---|
| Adolygwch eich gwerthiannau ac amcangyfrifwch faint o bob cynnyrch sydd angen i chi ei gadw mewn stoc. | Mae gwneud hyn yn eich galluogi i gynllunio ar gyfer eich anghenion penodol. | • Adolygwch eich gwerthiannau yn rheolaidd a sut mae'n effeithio ar eich angen am stoc. |
| Cynlluniwch ymlaen llaw i sicrhau bod gennych y lefel gywir o stoc ac archebwch yn ofalus. | Osgoi cael gormod o stoc sydd orau o ran diogelwch bwyd – a'ch elw. | • Cynlluniwch y stoc sydd ei angen arnoch i bara tan y tro nesaf y byddwch yn archebu.<br>• Cyfrifwch y stoc cyn rhoi archeb. |
| Cofiwch wirio'r holl stoc pan gaiff ei ddosbarthu i sicrhau:<br>• ei fod o fewn ei ddyddiad 'defnyddio erbyn' a bod digon o amser i'w werthu cyn y dyddiad hwnnw<br>• ei fod wedi'i gadw'n ddigon oer<br>• nad yw wedi mynd yn ddrwg<br>• bod y stoc yn lân a heb ei ddifrodi, e.e. taflwch unrhyw becynnau gwactod â thyllau, pecynnau sydd wedi chwyddo neu duniau â tholciau mawr a sicrhewch fod y caeadau yn dynn ar boteli a bod jariau a seliau heb eu torri<br>**Os bydd rhaid i chi ddefnyddio cynhwysyn amgen, gwiriwch fod yr wybodaeth am alergenau yn gywir.** | Pwrpas y gwiriadau hyn yw sicrhau bod y bwyd yn ddiogel i'w werthu.<br>Os yw'r deunydd pecynnu wedi'i ddifrodi, efallai nad yw'r bwyd yn ddiogel i'w ddefnyddio.<br>Gall pecynnau sydd wedi chwyddo fod yn arwydd bod bacteria wedi tyfu mewn bwyd neu ddiod.<br>Os yw poteli neu jariau wedi'u hagor, neu os yw seliau wedi'u torri, efallai na fydd y bwyd neu'r ddiod yn ddiogel. | • Hyfforddwch eich staff er mwyn iddynt wybod beth i chwilio amdano pan fydd nwyddau'n cael eu dosbarthu.<br>Sut ydych chi'n archwilio'r nwyddau sy'n cael eu dosbarthu?<br>• Lluniwch gytundeb ysgrifenedig gyda'ch cyflenwr am eich gofynion dosbarthu.<br>• Cynhaliwch hapwiriadau ar nwyddau wedi'u dosbarthu.<br>• Defnyddiwch y dyddiadur i gofnodi unrhyw faterion neu broblemau o ran nwyddau sy'n cael eu dosbarthu e.e. pecynnau o'r un cynnyrch yn cael eu dosbarthu gyda'i gilydd ond bod arnynt ddyddiadau 'defnyddio erbyn' neu 'ar ei orau cyn' gwahanol. |

| DYDDIADAU AR FWYD | BETH YW EU HYSTYR? |
|---|---|
| 'Defnyddio erbyn' (*Use by*) | Mae 'defnyddio erbyn' yn golygu hynny'n union. Ni ddylech werthu unrhyw fwyd neu ddiod ar ôl diwedd y dyddiad 'defnyddio erbyn' ar y label. Hyd yn oed os yw'n edrych ac yn arogli'n iawn, gallai'r bwyd beryglu iechyd eich cwsmeriaid ac achosi gwenwyn bwyd ar ôl y dyddiad hwn. Mae'n anghyfreithlon gwerthu bwyd ar ôl ei ddyddiad 'defnyddio erbyn'.<br>Byddwch fel arfer yn gweld dyddiad 'defnyddio erbyn' ar fwyd sy'n mynd yn ddrwg yn gyflym, fel llaeth, caws meddal, salad wedi'i baratoi, cig wedi'i goginio a physgod mwg. Mae hefyd yn bwysig dilyn unrhyw gyfarwyddiadau storio a roddir ar labeli bwyd, fel arall efallai na fydd yn para tan y dyddiad 'defnyddio erbyn'. Fel arfer mae angen cadw bwyd â dyddiad 'defnyddio erbyn' yn yr oergell. |

DULL DIOGEL:

# RHEOLI STOC

**Parhad**

| DYDDIADAU AR FWYD | BETH YW EU HYSTYR? |
|---|---|
| 'Ar ei orau cyn' (*Best before*) | Ceir dyddiadau 'ar ei orau cyn' fel arfer ar fwydydd sy'n para'n hirach, fel bwyd wedi'i rewi, bwyd sych neu fwyd tun. Dylai fod yn ddiogel bwyta bwyd ar ôl y dyddiad 'ar ei orau cyn', ond ni fydd y bwyd ar ei orau bellach.<br><br>Ar ôl y dyddiad hwn, gallai'r bwyd ddechrau colli ei flas ac ansawdd ac yn ddelfrydol dylid ei dynnu o'r man gwerthu.<br><br>Mae gan rai cynhyrchion, fel bara, fath gwahanol o ddyddiad 'ar ei orau cyn', e.e. ar ei orau cyn 20 Rhagfyr (2). Y rhif mewn cromfachau yw faint o ddiwrnodau cyn y dyddiad 'ar ei orau cyn' y mae'r gwneuthurwr yn argymell y dylai gael ei werthu. Felly, yn yr enghraifft hon, y dyddiad fyddai diwedd 18 Rhagfyr.<br><br>Mae wyau yn eithriad – rhaid eu gwerthu o leiaf saith diwrnod cyn y dyddiad 'ar ei orau cyn'. Mae'n anghyfreithlon gwerthu wyau ar ôl hyn. |

| RHEOLI | |
|---|---|
| Dylech gylchdroi stoc yn rheolaidd a thaflu unrhyw fwyd sydd wedi mynd heibio'i ddyddiad 'defnyddio erbyn' neu sy'n amlwg yn anaddas i'w fwyta e.e. wedi llwydo. Edrychwch ar y dyddiadau 'defnyddio erbyn' bob dydd fel rhan o'ch gwiriadau cau. | • Rhowch gynnyrch gyda'r dyddiadau cynharaf ar flaen y mannau arddangos fel bod stoc hŷn yn gwerthu gyntaf. Mae hyn yn helpu i osgoi gwastraff.<br>• Hyfforddwch eich staff i reoli stoc a gwnewch yn siŵr eu bod yn gwybod ym mha drefn y dylid arddangos bwyd a ble i roi bwyd os caiff ei dynnu o'r man gwerthu.<br>• Sicrhewch yn rheolaidd fod y broses rheoli stoc yn cael ei chynnal yn effeithiol.<br>• Cofnodwch wiriadau stoc yn y dyddiadur.<br>• Os oes gennych lawer o gynhyrchion mewn stoc sy'n agos i'w dyddiad 'defnyddio erbyn', ystyriwch leihau'r pris i werthu mwy cyn y dyddiad. O wneud hynny, bydd yn rhaid i chi daflu llai o gynhyrchion.<br>• Taflwch wyau saith diwrnod cyn y dyddiad 'ar ei orau cyn'. |

| BETH I'W WNEUD OS AIFF PETHAU O CHWITH | SUT I ATAL HYN RHAG DIGWYDD ETO |
|---|---|
| Os ydych chi'n sylwi nad yw bwyd sydd wedi mynd heibio i'w ddyddiad 'defnyddio erbyn' wedi cael ei daflu, taflwch y bwyd ar unwaith neu rowch y bwyd mewn man arbennig os yw'n cael ei ddychwelyd i'r cyflenwr.<br><br>Os nad ydych yn credu bod bwyd a gaiff ei ddosbarthu wedi cael ei drin yn ddiogel, gwrthodwch y bwyd os yw'n bosibl. Peidiwch â'i werthu a chysylltwch â'ch cyflenwr ar unwaith. | • Adolygwch eich proses archebu.<br>• Adolygwch eich system cylchdroi stoc.<br>• Adolygwch eich trefniant gyda'ch cyflenwr.<br>• Ewch ati i hyfforddi staff eto ar y dull diogel hwn.<br>• Ewch ati i wella'r drefn o oruchwylio staff. |

**Nodwch beth aeth o'i le a sut aethoch chi i'r afael â'r sefyllfa yn eich dyddiadur.**